**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd Nos Fawrth, Ebrill 19eg 2016 am 6.30 o’r gloch yn Neuadd y Dref, Dinbych.**

**Presennol:** Cynghorwyr Mark Young (cadeirydd), Rob Parkes (is gadeirydd),
Gaynor Morgan Rees, Medwyn Williams, Alyn Ashworth, Margaret Bowe (cyrhaeddodd 6.39pm).
a Medwyn Jones (Clerc y Dref).

**Arsylwi:** Mrs Jenny Barlow.

**Ymddiheuriadau:** Cyng Philip Stevens,

Croesawodd y cadeirydd bawb i’r cyfarfod.

**1. Datgan Diddordeb Personol.** Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

**2. Derbyniwyd a chymeradwywyd cofnodion cyfarfod o’r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar Fawrth 15fed 2016.**

**3. Materion yn codi:** Nid oedd unrhyw fater yn codi.

**4. Ceisiadau am ganiatâd cynllunio**.

Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i beidio â gwrthwynebu’r cais canlynol am ganiatâd cynllunio:

(1) Bryn y Parc, Stryd y Parc - torri i lawr coeden pinwydden Corisicaidd yn Ardal Cadwraeth Dinbych.

Ynglŷn â’r cais cynllunio a dderbyniwyd Ynglŷn â Wm. Morrisons Supermarket Plc, Ffordd y Ffair - amrywiad i amod rhif 10 o ganiatâd cynllunio 01/867/97, cytunwyd i wrthwynebu’r cais ar sail yr effaith bydd yr oriau newydd yn ei gael ar amwynder trigolion lleol.

Ynglŷn â’r cais a dderbyniwyd ar gyfer tir rhwng Hen Ffordd Rhuthun a Ffordd Rhuthun - datblygu 2.1 ha of dir ar gyfer dibenion preswyl (cais amlinellol gan gynwys manylion mynedfa), penderfynwyd cyfeirio’r cais am ystyriaeth gan y cyngor llawn yng ngyfarfod y cyngor ar Ebrill 25ain 2016.

**5**. **Materion Cynllunio eraill:** (1) Tir tu ôl I Frondeg, Ffordd Rhuthun - enwi stryd a rhifo. Cytunwyd fod yr hyn a awgrymwyd yn dderbyniol.
(2) CSDd - mabwysiadu briffiau datblygu safle - Diserth, Dinbych, Gallt Melyd a Llanelwy - nodwyd.

Am nad oedd mwy i’w drafod, terfynwyd y cyfarfod am 7.50 o’r gloch.

Arwyddwyd:....................................................................................................(cadeirydd)

Dyddiad:...........................................